

Y dref rhwng dau lyn

Dylan Iorwerth yn cael ei dywys ar daith hanesyddol trwy'r Bala, cartre'r Eisteddfod Genedlaethol



16 Coleg Y Bala, yr academi ddiwinyddol sy'n crisialu'r cysylltiad clos rhwng y dref ac Anghydfurfiaeth



1 Y domen yn Y Bala, un o'r mwyaf yng Nghymru

Ar y bwrdd o'i flaen, mae gan Peris Jones Evans gyfieithiad Cymraeg o ddogfen o'r Oesoedd Canol — siarter a gyhoeddwyd gan y Brenin Richard II (1377–99), sy'n cyfeirio'n ôl at siarter o 1324 yn nheyrnasiad Edward II (1307–27). Ynddi hi y mae'r sôn cyntaf am fwrdeisdref Y Bala, ar lan Llyn Tegid.

Mae'r siarter, a ddyddwyd y trydydd dydd o Fehefin, yn sôn yn benodol am roi hawliau i drigolion Seisnig gan grybwyll y lladron a'r drwgweithredwyr a fyddai'n casglu'n gyson yn y lle a elwid yn 'Penllyn' yng ngogledd Cymru. Mae hefyd yn sefydlu'r hawl i gynnal dwy ffair yn Y Bala, ac mae'r ddwy'n dal i fynd bron 700 mlynedd wedyn.

Hawl arall yn y siarter yw hwnnw i godi wal a ffos i warchod y fwrdeisdref a'i thomen Normanaidd, sy'n dal i godi uwch pen dwyreiniol y dref fodern. Pan fydd Peris Jones Evans yn mynd â grwpiau o bobl ar daith hanes trwy'r dref, dyna'r ardal i ddechrau ...

1 Mae llwybr yn troelli rhwng llwyni isel i dop y domen, un o'r rhai mwyaf yng Nghymru ac sydd bellach yn ardd i'r dref.


Mae archeolegwyr yn awgrymu efallai

bod llys Cymreig yn arfer bod gerllaw; yn sicr, cafodd Tomen y Bala ei chipio gan Lywelyn ab Iorwerth yn 1202 — wrth iddo ymestyn ffiniau Gwynedd i Benllyn a chosbi'r arglwydd lleol, Elise ap Madog, am fethu â'i gefnogi.

Yma, gyda'r dref oddi tano, mae Peris Jones Evans yn dyfalu ynghylch ei enw. Yr hen gred oedd fod 'bala' yn cyfeirio at afon yn llifo o lyn; mae'r wybodaeth ddiweddar a'n awgrymu tir sych rhwng dau lyn. Mewn oes o'r blaen, meddai'r hanesydd lleol a fu'n athro ysgol yma, byddai'r tir i'r dwyrain wedi bod yn wlyb iawn hefyd a thir sych ger rhyd tros afon Dyfrdwy yn bwysig tros ben.

Oddi yma, hefyd, mae modd gweld patrwm y dref: y brif stryd hir a'r ddwy lôn gulach o boptu iddi. Roedd hyn yn nodweddiadol o gynllun tref ganoloesol a rhannwyd Y Bala yn hanner cant a thri o leiniau i'r bwrdeisiaid gan Roger Mortimer tua 1310. Arhosodd fwy neu lai yr un peth tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ond cafwyd defnydd arall i'r domen, neu'r 'mownt', yn ôl Peris Jones Evans. 'Pan ddaeth Goerge Borrow i'r Bala yn 1854, mi



Map o'r Bala — mae'r rhifau'n nodi llefydd sydd yn yr erthygl



2 Capel yr Annibynwyr



3 Tai yn Stryd y Domen yn dangos y symudiad oddi wrth gerrig lleol at friciau coch yn sgil dyfodiad y rheilffordd yn 1868

ddisgrifiodd dwr o bobl ar lethrau'r domen yn gwau sanau — roedd y dref yn enwog am hynny.'

Yn ôl i lawr i ddilyn Stryd y Domen, y fwyaf deuheul o'r tair stryd ganoloesol. Yma, mae'r adeiladau'n llawn o'r manylion bach hynny sy'n adrodd hanes tref. Cartref y gweinidog dall J. Puleston Jones a'r pêl-droediwr rhyngwladol a'r blaenor, Jack Evans ... a chefn yr hen Ysgol 'British' yn dwyn cof am frwydr y bedwaredd ganrif ar bymtheg am enaid byd addysg. Roedd yr Ysgol Fytanaidd yn anenwadol, yn wahanol i'r Ysgol Genedlaethol ar ochr arall y dref, a oedd yn nwylo'r Eglwys.

Yna, down at un o'r adeiladau pwysig ...

2 Cafodd Capel yr Annibynwyr ei godi yn 1867 yn anterth Ymneilltuaeth, pan oedd Y Bala'n feithrinfa i weinidogion. Gyferbyn â'r

capel modern, mae safle capel arall ac academi ddiwinyddol a oedd yno rhwng 1842 ac 1869. Un o'r athrawon yno oedd Michael D. Jones, brodor o Lanuwchllyn gerllaw ac un o sylfaenwyr y Wladfa Gymraeg ym Mhatagonia yn 1865.

Ychydig yn nes ymlaen, roedd yna academi arall a chapel Methodistaidd ac ar fryn i'r gogledd o'r dref mae Coleg y Bala, y coleg diwinyddol a godwyd yn 1863 ac sydd bellach yn Ganolfan Ieuentid i Eglwys Bresbyteriaidd Cymru.

'Roedd y myfyrwyr diwinyddol yn bwysig i economi'r dref,' meddai Peris Jones Evans. 'Mi fyddai llawer o bobl wedi cael arian o'u cadw nhw ac un o'r busnesau pwysig oedd llogi ceffylau, yn arbennig ar gyfer myfyrwyr i fynd i'w cyhoeddiadau pregethu.'

Ymlaen â ni tua'r gorllewin a hebio

Lle bu'r Rhufeiniaid

Mae maes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ar safle un o'r ceirydd Rhufeinig pwysicaf yng Nghymru.

Dim ond yn ystod hafau sych 1975 ac 1976 y daeth cyfres o farciau ar y ddaear i'r golwg, gan ddatgelu safle milwrol

Rhufeinig na wyddai neb amdano, a hynny rhwng tref Y Bala a Llanfor.

Mae bellach wedi ei gydnabod yn gaer bwysig gyda gwersyll tros dro a vicus, neu drefedigaeth sifil, gydag adeiladau wedi eu gwneud o bren.

Dewch am dro i'r Bala

Tref ddiddorol (*interesting*) ydy y Bala. Dych chi'n gallu mynd am dro (*to go for a walk*) i weld y dref.

- Lle da i ddechrau ydy Y Domen — roedd castell yma.
- Mae llawer o gapeli yn Y Bala — mae hi'n dref bwysig yn hanes crefydd (*history of religion*) yng Nghymru.
- Ar un adeg (*at one time*), roedd llawer o ddynton ifanc yn dod i'r Bala i ddysgu bod yn bregethwyr (*preachers*).
- Dyma dref Thomas Charles hefyd. Helpodd Thomas Charles

gyda dechrau'r Ysgol Sul (*Sunday School*) yng Nghymru a gyda dechrau Y Feibl Gymdeithas (*The Bible Society*) trwy'r byd (*throughout the world*).

Daeth merch ifanc o'r enw (*called*) Mary Jones i'r Bala i weld Thomas Charles. Cerddodd hi dros ugain (*twenty*) milltir i gael Beibl. Mae'n stori bwysig yn hanes y Feibl Gymdeithas.

Mae plac i gofio am Mary Jones ar wal Banc Barclays yn Y Bala — tŷ Thomas Charles erstalwm (*a long time ago*).



4 *Capel Tegid gyda cherflun Thomas Charles*

enghraifft wych o bensaerniaeth ddryslyd ...

3 Mae'n edrych fel fandaliaeth; mewn gwirionedd, meddai Peris Jones Evans, mae 48-52 Stryd y Domen yn cynnig tystiolaeth am un o'r newidiadau mawr yn hanes Y Bala. Mae tri o'r tai yn yr arddul Gothig ac yn y garreg leol, dywyll. Yn amlwg, roedden nhw ar un adeg yn rhan o res gymesur o bum tŷ, ond cafodd dau eu disodli gan dai brics coch ar dri llawr.

'Brics Rhiwabon yd'i'r rhain,' meddai'r hanesydd. 'Pan ddaeth y rheilffordd i'r Bala yn 1868, mi ddaeth hi'n hawdd i gario'r brics efo'r trê. Tan hynny, roedd y tai yn y garreg leol; ar ôl hynny, daeth y tai brics coch.'

Roedd y rheilffordd ar ochr bella'r llyn, ond ychwanegwyd lein ochr yn 1882 i fynd heibio pen dwyreiniol y dref i gyfeiriad Blaenau Ffestiniog a'i chwareli llechi.

4 Rownd y gornel, dyma Capel Tegid, a godwyd yn 1866 am £4,000, ac a greodd gynnwrf gyda'i feindwr bregus, sydd bellach wedi'i adnewyddu. Dyma un o eglwysi cadeiriol y Methodistiaid Calfinaidd, meddai Peris Jones Evans, wedi ei chodi pan oedd y tadau wedi hen anghofio llymder plaen y dyddiau cynnar.

Y tu allan mae cerflun o Thomas Charles, un o sylfaenwyr y Feibl Gymdeithas a'r Ysgol Sul. Helpodd ei bresenoldeb selio enw'r Bala yn ganolfan grefyddol o bwys.

I weld Thomas Charles y cerddodd Mari Jones 12 oed o Lanfihangel y Pennant wrth droed Cadair Idris, i brynu Beibl. Roedd ei stori'n ysbrydoliaeth i'r Gymdeithas ei hun a diolch iddi hithau, mae stori Mari Jones yn enwog led led y byd.

Yn ôl ar Stryd y Domen, dyma gapel arall eto fyth, un llawer llai a mwy gwylaidd, sydd bellach yn ganolfan dreftadaeth. Dyma Capel y Plase 5 mewn ardal, yn ôl Peris Jones Evans, lle'r oedd tryblith o dai tlawd a chyrtau yn gwasgu at ei gilydd. Fel y gwelwch chi mewn sawl tref, hwn oedd capel y tlodion o'i gymharu ag awyrgylch fwy llewyrchus Capel Tegid, lle'r oedd aelodaeth yn glod cymdeithasol.

'Roedd pobl yn gallu dod i fa'ma yn eu dillad gwaith. Mi gafodd ei godi'n rhannol i ateb y galw gan labrwy'r yn gweithio ar y rheilffordd i Ffestiniog yn yr 1880au.

6 *Pyjamas.* Mae'r gair ar yr arwydd yn eich taro yn eich talcen wrth ichi gerdded rownd y cefnau i waelod y Stryd Fawr. Yno, yn wyrwys gwreiddiol y dref, y mae'r ateb.

Cafodd hwn ei godi yn yr 1830au yn ymateb uniongyrchol i Ddeddf Diwygio Deddf y Tlodion yn 1834. Yn y garreg leol, mae ganddo ystafelloedd crandach ar y naill ochr a'r llall i'r brif fynedfa, mae'n debyg i lety'r staff. Er gwaetha'i olwg gadarn, roedd yna broblemau cynnal a chadw o'r dechrau, meddai Peris Jones Evans.

Ond fe oroesodd a chael sawl bywyd gwahanol, yn farics milwrol, yn ffatri fara ceirch, yn waith potelu dŵr a cyn ffatri byjamas leol a fu'n cynhyrchu tan yn ddiweddar iawn, pan symudwyd y gwaith i ddwyrain Ewrop.

'Eiddo Richard John Lloyd, sgweier Rhiwlas, oedd y gwaith potelu. Roedd o'n ddyn eccentrig a fo sefydlodd y ddistyllfa whisgi ym mhentre' Frongoch gerllaw. Yn

Rhiwlas — ystadau a gormes

Rhiwlas yw'r ystâd leol fwyaf amlwg. Mae teulu'r Priceiaid yn olrhain eu hachau'n ôl at un o gefnogwyr Harri VII, ond yn ystod ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg y gosodwyd seiliau'r ystâd.

Yn 1859, daeth y sgweier ar y pryd, R. J. Lloyd Price yn enwog trwy droi allan rhai o'i denantiaid a oedd wedi pleidleisio i'r Rhyddfrydwyr mewn etholiad cyffredinol.

Yn Glanllyn ar lannau Tegid, a oedd yn eiddo i Watkin Williams Wynn, tîrffediannwr mwyaf gogledd Cymru, trowyd mam weddw Michael D. Jones o'i chartref hithau.

Yn 1850, roedd gan Rhiwlas a Glanllyn rhyngddyn nhw 14,000 erw; erbyn 1873, roedd Lloyd Price yn berchen ar fwy na 18,400 erw, gydag incwm rhenti o fwy na £9,000.

Erbyn hyn, Glanllyn yw un o wersylloedd yr Urdd — cafodd y mudiad ei sefydlu gan ddyn lleol, Syr Ifan ab Owen Edwards, a ddilynodd ei dad, Owen Edwards o Lanuwchllyn, yn un o amddiffynwyr mawr y diwylliant Cymraeg.

Plasty pwysig arall oedd Y Palé ger Llanderfel, a godwyd yn 1871 gan y teicŵn rheilffyrdd, Henry Robertson. Dyma lle'r arhosodd y Frenhines Victoria yn 1889 ar daith brin y tu allan i Lundain a'r Alban, pan ddaeth i ymweld â dyn o Langollen a oedd wedi sgrifennu cofiant i'w diweddar ŵr; y Tywysog Albert.

Doedd tŷ hwnnw ddim yn ddigon crand, felly daeth i'r Palé a rhoi bendith ei chwstwm i sawl busnes yn Y Bala.



6 *Yr hen wyrwys, sydd bellach yn siop ac a fu'n ffatri ddillad nos*



9 *Y Llew Gwyn Brenhinol a'i estyniad yn dangos effaith y rheilffordd ar dwristiaeth yr ardal*

ddiweddarach, daeth yn wersyll i garcharorion rhyfel o'r Almaen ac, ar ôl Gwrthryfel 1916 yn Iwerddon, daeth yn wersyll ar gyfer y gwrthryfelwyr Gwyddelig, mae yna straeon am ddydd lleol, Johnny Roberts, yn cario llyfrau Cymraeg yno pan oedd yn blentyn, i'w rhoi i Michael Collins.'

Ar y dde, wrth i chi gerdded yn ôl at ben ucha'r dref, mae Yr Hen Ben Tarw **7**, y dafarn hynaf, wedi ei chodi yn wreiddiol yn 1692. Ac mae stori ynglŷn â honno ... 'Yn fa'ma yr oedd pobl yn yfed pan ddaeth y diwygiwr Howell Harris i bregethu yn 1739. Yn ôl y stori, Ficer Llanycil oedd wedi talu am ddiod i yfyr yn y dafarn i'w hannog nhw i godi helynt ...'

Ymhellach ar y dde, mae Banc Barclays **8** lle'r oedd gwraig Thomas Charles, Sally Jones, yn cadw siop a lle mae plác i gofio am stori Mari Jones. Gyferbyn, mae'r Llew Gwyn Brenhinol **9**, lle bu George Borrow unwaith yn brecwasta. Gwesty coets fawr oedd hwn, ond fe gafodd ei ehangu'n sylweddol pan ddaeth y rheilffordd â'i don newydd o ymwelwyr: Roedd Llyn Tegid yn enwog am ei bysgota a'r ddwy Aran uwchben yn denu selogion y pictwrésg.

Erbyn hyn, mae neuadd y dref o dan haen o sgaffaldiau mewn prosiect adnewyddu sy'n cael ei gefnogi gan Cadw. Mae sôn fod croes farchnad ynghanol y stryd tan ryw dro yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg — byddai'r farchnad anterliwtiau'n cael eu cynnal ar y llawr gwaelod. Uwchben yr oedd y llys, lle cafodd rhai o'r Crynwyr eu herlyn tua chanol yr ail ganrif ar bymtheg.

Presenoldeb y llys sy'n egluro pam fod rhai tai sylweddol tua ochr ddwyreiniol y dref. Dyma'r tai tref a godwyd i'r teuluoedd bonedd lleol. Y mwyaf amlwg yw Plas yn Dre **11** ar y chwith, sydd bellach yn dŷ tafarn. Roedd yn eiddo i deulu Llwydiad Rhiwaedog, yr enwocaf o'r teuluoedd Simon Lloyd (m. 1836) un o noddwyr Thomas Charles.

Gerllaw mae cerflun urddasol Goscombe John o T.E. Ellis **10** y gwleidydd Rhyddfrydol mawr a fu'n Brif Chwip y blaid ac a fyddai wedi cystadlu â Lloyd George ei hun oni bai am afiechyd a'i farwolaeth gynnar yn 40 oed yn 1899. Roedd gorymdaith ei angladd yn ymestyn am gannoedd o lathenni ar hyd y ffordd o'r Bala i'w gartref yng Nghefnddwysarn.

Mewn bwllch ar ochr arall y brif stryd y mae'r 'Capel Saesneg' **12** a godwyd yn 1811. Capel anwes oedd yr adeilad yma cyn codi Eglwys Crist, a'i meindwr mawreddog.

Er mai Y Bala oedd y lle mwyaf o lawer;



11 Plas yn Dre, a oedd yn dŷ tref i deuluoedd bonedd lleol



10 T.E. Ellis, Prif Chwip y Rhyddfrydwyr

doedd dim eglwys y plwyf yno; roedd pum plwyf Penllyn yn troi o amgylch y pentrefi cyfagos — Llanycil, Llanfor, Llanuwchllyn, Llandderfel a Llandrillo. Y Pum Plwyf a roddodd un o'i hen enwau Saesneg rhyfeddaf i Lyn Tegid — Pimblemere!

Nesaf, yr Henblas **13** a'r drws nesaf iddo siop i felin wlân a'r arfbais brenhinol ar y wal yn atgoffa pawb fod y Frenhines Fictoria ei hun wedi archebu defnydd yma — gwlanen gyda sidan coch yn rhedeg trwyddo.

14 Bellach, rydym yn gadael y dref ac yn agos at y domen unwaith eto, ar yr ochr dde. Rhyngon ni a hithau, mae Neuadd y Cyfnod, wedi'i henwi ar ôl un o bapurau newydd yr ardal, yn adeilad hen ysgol ramadeg y bechgin.

Mae arysgrif Ladin uwch y prif ddrws ac arfbais Coleg yr Iesu, Rhydychen, ar y wal. Cafodd ei sefydlu yn 1712 a'i hailadeiladu yn 1851 gyda chymorth ariannol o'r coleg. I Ysgol Tan Domen yr aeth rhai o enwogion Cymru, gan gynnwys y canwr Dafydd Iwan a'r hanesydd mawr; yr Athro Syr Rees Davies.

Ac yna daw'r 'Green' **15**. Roedd unwaith yn ddam eang o dir agored lle byddai cyfarfodydd. Mae ysgythriadau cynnar yn dangos miloedd o bobl yma'n gwrandao ar bregethau; heddiw, mae'n faes parcio. Cafodd darn helaeth ohono ei lyncu gan y rheilffordd a oedd yn arfer ymestyn at afon Tryweryn droellog.

Cafodd cwrs honno ei newid a'i sythu yn yr 1950au, gan ragflaenu newid mwy. Ger ei tharddiad, boddwyd pentref Capel Celyn yn 1963 i greu argae i ddinas Lerpwl. Mae chwerwder o hyd ymhlith y rhai sy'n cofio ond, yn ôl Peris Jones Evans, fe newidiwyd y Bala hefyd.

'Mi gafodd y lôn gul o'r dref ei lledu i gymryd y traffig adeiladu a honno erbyn hyn ydi'r brif ffordd i ymwelwyr o'r Midlands i


Ben Llŷn. Ar yr un pryd, mi ddaeth hi'n bosib rheoli llif y dŵr yn afon Tryweryn, gan greu'r amodau ar gyfer canwio a chwaraeon dŵr.'

Gweithgareddau awyr iach, gan gynnwys hwylio, yw rhai o brif elfennau economaidd yr ardal. Trwy'r haf ac ar benwythnosau, bydd twristiaid yn tyrru ble'r oedd myfyrwyr diwinyddol.

16 Os edrychwch tua'r gogledd o'r 'Green', mae Coleg y Bala i'w weld ar fryncyn, gyda cherflun syber Lewis Edwards, un arall o'r hoelion wyth anghydfurfiol, ar glwt o darmac o'i flaen.

Gyferbyn â'r coleg mae Bodiwan, cartref Michael D. Jones a, thu cefn i hwnnw, dŷ lle bu Betsi Cadwaladr yn byw. Hi oedd y nyrs a fu yn Rhyfel y Crimea — y Florence Nightingale Gymraeg.

Yn syth o'ch blaen, mae gatiâu Stad y Rhiwlas a'r caeau lle cafodd yr Eisteddfod Genedlaethol gartref deirgwaith — yn 1967, 1997 ac, eto, yn 2009. 📍



14 Peris Jones Evans y tu allan i'r hen ysgol ramadeg